CHWARTER PEDWAR

# Adroddiad Perfformiad



2021-22

# Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad perfformiad hwn yn erbyn ein Cynllun Busnes 2021-22 i gefnogi'r diwydiant adeiladu, a rhennir ein cynnydd ar gyfer y flwyddyn dros y tudalennau a ganlyn. Mae pob gweithgaredd yn dod o dan un o'n tair blaenoriaeth strategol: Gyrfaoedd, Hyfforddiant a Datblygu, Safonau a Chymwysterau.

Eleni, gwnaethom dorri'r Lefi'n sylweddol i ddiogelu llif arian cyflogwyr, wrth leihau ein costau gweithredu ein hunain i ddarparu gwell gwerth i gyflogwyr.

Er gwaethaf hyn, rydym yn cyflawni ein canlyniadau allweddol o hyd – gan ragori arnynt mewn llawer o achosion. Fe wnaethom barhau i ddiogelu meysydd craidd fel cyllid uniongyrchol i gyflogwyr a chefnogi prentisiaid, wrth fynd i'r afael â'r heriau mwy hirdymor, megis bodloni y meysydd sgiliau â blaenoriaeth uchaf a Sero Net.

## UNIGOLION NEWYDD

**22,968**

o brentisiaethau wedi'u cefnogi â grantiau

**1.1 miliwn**

wedi ymweld ag Am Adeiladu

swyddi galwedigaethol dan hyfforddiant

**Cyntaf y DU**

wedi'u darparu'n llwyddiannus

**2,934**

o weithwyr newydd wedi'u hyfforddi drwy'r CSF

## CADW GWEITHWYR

**348,037**

wedi llwyddo yn y prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

**8,132**

o Gynorthwywyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl wedi'u hyfforddi

**153,514**

o bobl wedi cwblhau cyrsiau Site Safety Plus

## ARLOESI

**5,467**

o weithwyr wedi eu datblygu gyda gallu i arwain yn ddigidol

**4,997**

wedi elwa o'n rhaglen Dysg Trochi

**4,458**

o ddiwrnodau o hyfforddiant wedi'u harbed trwy e-ddysgu

## HYFFORDDIANT

**10,350**

o weithwyr wedi'u datblygu'n uniongyrchol drwy'r NCC

**1,042**

o gyflogwyr wedi cael hyfforddiant Tegwch, Cynhwysiant a Pharch

**37**

o gyflogwyr mawr wedi cael eu cefnogi gyda hyfforddiant arweinyddol

## CYLLID

**269,086**

o grantiau hyfforddiant cyfnod byr wedi'u cynnal

**1,566**

o SME wedi elwa o gyllid uniongyrchol

**16,929**

o gymwysterau wedi'u cefnogi â grantiau

# GYRFAOEDD

## Am Adeiladu

Gorffennodd Am Adeiladu ei flwyddyn lwyddiannus ymhell uwchlaw'r targed, gyda **dros filiwn o ymweliadau** â'r wefan gwybodaeth am yrfaoedd.

Fe wnaethom gynnal ymgyrchoedd Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau a Phrentisiaeth yr Alban, yn hyrwyddo Talentview Construction i annog pobl ifanc i ddechrau eu taith ar brentisiaeth. Gwelwyd yr ymgyrchoedd dros 18 miliwn o weithiau ar draws y cyfryngau cymdeithasol.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn creu mwy o wybodaeth am lwybrau gyrfa benodol i Gymru a'r Alban, yn ogystal ag uwchraddio'r adnoddau addysgol presennol - gan sicrhau bod gan rieni, athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd adnoddau dysgu difyr, llawn gwybodaeth.

## Iechyd Meddwl

Rydym yn falch o fod ar flaen y gad o ran mynd i'r afael ag iechyd meddwl ym maes adeiladu, ynghyd â'n partneriaid. Mae ein Hyfforddwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) bellach wedi hyfforddi dros **8,000 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl** – gan ddarparu cymorth hanfodol, a allai achub bywydau.

Dywedodd un Swyddog Cymorth Cyntaf:

"Roedd y cwrs MHFA yn heriol, yn addysgiadol, a, diolch i'n hyfforddwr ac er gwaethaf y pwnc Roedd yn bleserus a gwerth chweil iawn. Fe helpodd fi i ehangu fy ngwybodaeth am faterion iechyd meddwl, a dysgais sut i fynd at bobl a allai fod Angen cefnogaeth Mae'n gwrs Hygyrch iawn ac fe fyddwn yn ei argymell i unrhyw un."

## Cronfa Sgiliau Adeiladu (CSF)

Trawsnewidiodd Natalie Visser, mam i dri o blant, ei gyrfa diolch i'r CSF – gan fynd o fod yn weithiwr gofal anfodlon i fod yn weithredwr peiriannau, yn ffynnu yn y diwydiant adeiladu:

"Newidiodd y cwrs CSF bopeth, Roeddwn i'n arfer gorwedd yn y gwely heb fod eisiau codi. Mae hynny i gyd wedi mynd nawr. Rwy'n dod i mewn i'r gwaith yn hapus ac yn mynd adref yn hapus. Mae wedi newid bywyd. Rydw i wedi ffeindio fy nhraed yn fy ngyrfa newydd ac rydw i mor ddiolchgar i'r CSF ar gyfer hyn".

Mae Natalie yn un o bron i **3,000 o unigolion newydd** i gael hyfforddiant adeiladu erbyn ail gam y rhaglen CSF. Rydym yn adeiladu ar y llwyddiant hwn gyda chanolfannau profiad ar y safle gysylltu ymgeiswyr dawnus â chyflogwyr lleol a chyfrannu at ein targed o sicrhau bod 16,000 o bobl yn cael profiad ymarferol o'r safle erbyn 2024.

## Llysgenhadon Stem, Am Adeiladu

Mae ein Llysgenhadon yn dod ag adeiladu i'r ystafell ddosbarth – gan arddangos ein diwydiant amrywiol a gwobrwyol yn uniongyrchol i bobl ifanc. Bellach mae gennym **378 o Lysgenhadon gweithredol** ac rydym yn disgwyl cyrraedd 1,700 cyn pen dwy flynedd. Fel yr amlygodd ein hymchwil Ail Feddwl ynghylch Recriwtio, mae angen i'r diwydiant groesawu dulliau amgen o ddenu a recriwtio pobl i'r diwydiant adeiladu.

Mae un o'n Llysgenhadon cyntaf, Anjali Pindoria, yn meddwl y dylai pob gweithiwr proffesiynol – o brentisiaid i gyfarwyddwyr – gymryd rhan:

"Mae mor werth chweil; rydych yn gadael effaith barhaol ar bobl ifanc drwy eu hysbrydoli a'u cynnwys ym maes adeiladu a llunio'r hyn y maent yn ei wybod am ein diwydiant."

# Hyfforddi a Datblygu

## Cyllid

Mae ein Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant yn helpu cwmnïau adeiladu i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel i'w gweithwyr.

**Mae 429 o fusnesau bach a micro wedi'u cefnogi'r chwarter hwn, sy'n dod â chyfanswm y flwyddyn i 1,556.** Derbyniwyd nifer fawr o geisiadau am y gronfa, a chymeradwywyd y mwyafrif helaeth ohonynt.

Defnyddiodd Daniel Jeffries Carpentry y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant i wella sgiliau ei weithlu:

> "Rwyf wir yn credu mewn hyfforddi pobl ifanc. Dechreuais fel Prentis, cyn mynd ymlaen ar fy mhen fy hun. Mae ein Cynghorydd CITB wedi bod yn siarad â'n coleg i helpu gyda hyfforddiant ac asesiad. Mae gweithio gyda CITB wedi bod o gymorth mawr."

Gwelodd y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant canolig dwf cryf y chwarter hwn - **defnyddiodd 61 o fusnesau'r gronfa, cyfanswm o 98 eleni.** Gwnaethom wrando ar gyflogwyr a chael gwared ar y gofyniad i weithgarwch hyfforddi fod yn newydd dros dro - gan agor y drws i ragor o gwmnïau elwa ar hyfforddiant a ariennir. Byddwn yn parhau i gysylltu â chyflogwyr cyn adolygiad o amodau'r gronfa ym mis Medi.

Mae cynnydd y Gronfa Arwain a Rheoli ar y trywydd iawn o hyd. Darparwyd cyllid i **37 o gwmnïau mawr** i fuddsoddi yn sgiliau arwain, rheoli neu oruchwylio eu staff – ac mae 15 ohonynt wedi gorffen eu rhaglenni. Oherwydd Covid, fe wnaethom ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflawniad, a diolch i gyfathrebu parhaus â derbynwyr, rydym yn disgwyl i bawb fodloni hyn.

## Gosod Brics (ABC)

Er mwyn croesawu dulliau modern o adeiladu yn llawn a mynd i'r afael â phryderon cyflogwyr ynghylch sgiliau gosod brics, fe wnaethom greu 16 o gyrsiau hyfforddiant cyfnod byr newydd.

Dan arweiniad cyflogwyr, mae'r cyrsiau newydd wedi'u darparu flwyddyn yn gynt na'r disgwyl i 25 o golegau addysg bellach ar draws Prydain Fawr. Mae'r prosiect yn gweithredu uwchlaw'r targed, gyda **228 o weithwyr gosod brics presennol a 758 o hyfforddeion** wedi elwa hyd yn hyn.

Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y cyrsiau ac adborth gan gyflogwyr a dysgwyr wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae gormod o geisiadau am y cyrsiau ar hyn o bryd, felly rydym wedi cynyddu eu cyllideb dros y ddwy flynedd nesaf i fodloni'r galw.

## Prentisiaethau

Dechreuodd ein Prif Weithredwr, Tim Balcon, ei yrfa fel prentis – gan ddysgu sgiliau ymarferol ar y safle ochr yn ochr ag astudio yn yr ystafell ddosbarth, a hynny wrth ennill cyflog da. Mae, ac mi fydd cefnogi cyflogwyr a'u prentisiaid yn rhan greiddiol o'n rôl bob amser.

Fe wnaethom fuddsoddi **£48.9m mewn grantiau prentisiaeth eleni.** Gan roi'r cymorth ariannol sydd ei angen ar gyflogwyr, gwnaethom gefnogi bron i **23,000 o brentisiaid** drwy gydol eu rhaglenni.

**Mae 249 o brentisiaid o 91 o gyflogwyr** wedi elwa o'n Cynllun Prentisiaeth a Rennir sy'n galluogi busnesau, yn aml busnesau BbaChau (SME), i brofi gwerth prentis heb yr ymrwymiad hirdymor.

Mae ein cynllun Teithio i Hyfforddi, sy'n talu am 80% o gostau teithio a llety prentisiaid wrth iddynt hyfforddi oddi cartref, yn parhau i fod yn boblogaidd. Fe wnaethom gefnogi 244 o brentisiaid newydd, ochr yn ochr â'r 1,338 sydd eisoes yn elwa o'r cynllun.

# Hyfforddiant a Datblygu

## Grwpiau Hyfforddi

Mae model y Grŵp Hyfforddi wedi'i symleiddio, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran arbed amser ac arian i gyflogwyr ar hyfforddiant.

Mae dros 2,500 o gyflogwyr wedi cael mynediad at hyfforddiant trwy Grŵp Hyfforddi, cynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Mae ein 58 Grŵp Hyfforddi Lleol wedi arbed dros **£1.1m yn gronnol i gyflogwyr mewn costau hyfforddiant,** gan ddarparu gwerth dros 22,000 o ddiwrnodau o hyfforddiant.

Rydym yn gwella ac yn ailgynllunio porth y Grŵp Hyfforddi, gan ei gwneud yn haws i gyflogwyr ddod o hyd i Grŵp ac ymuno ag ef, wrth goladu ein cronfa o adnoddau cymorth cyflogwyr ar gyfer aelodau presennol.

## Grantiau Cymwysterau a hyfforddiant cyfnod byr

Wrth i'r diwydiant adfywio, mae ein Cynllun Grantiau yn sicrhau bod y gweithlu'n gallu cael mynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Fe wnaethom gefnogi dros **16,000 o ddysgwyr gyda grantiau** i gyflawni eu cymwysterau adeiladu, gan ragori ar ein targed o 15,000.

Cafodd dros **269,000 o gyrsiau hyfforddiant cyfnod byr unigol** gymorth grant eleni. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol wrth i gyflogwyr roi blaenoriaeth gynyddol i wella sgiliau eu gweithlu.

## Hyfforddiant

Mae dros **348,000 o bobl** wedi llwyddo yn y Prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, gan ragori ar gyfanswm y llynedd o 270,000. Cadw pobl yn ddiogel ar y safle fydd ein blaenoriaeth bob amser, a'n prawf ni yw safon y diwydiant o hyd.

Rydym yn parhau i wneud hyfforddiant a gwybodaeth hanfodol mor hygyrch â phosibl. Rydym wedi cyhoeddi dros 372,000 o gyhoeddiadau ar draws e-lyfrau, copi caled ac apiau. Mae ein cyrsiau e-ddysgu, y gellir eu cwblhau gartref, wedi **arbed £328,000 a thros 4,400 o ddiwrnodau i ddiwydiant** o'i gymharu â dulliau hyfforddiant traddodiadol.

Gwelodd ein cyrsiau Site Safety Plus sy'n gwella ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch a datblygiad gyrfa, dwf cryf. Cwblhaodd dros **153,000 o gynrychiolwyr** cwrs, a dewisodd llawer ohonynt wneud hynny o bell.

# Safonau a Chymwysterau

Mae 118 yn rhagor o safonau wedi'u datblygu a'u hychwanegu at y Cyfeirlyfr Hyfforddiant, gan ddod â chyfanswm eleni i 492 yn erbyn targed o 463. Mae hyn yn golygu **bod 87% o'n hyfforddiant cyfnod byr yn cael ei gefnogi gan safon y cytunwyd arni gan y diwydiant.**

Mae cael mwy o safonau ar y Cyfeirlyfr Hyfforddiant yn sicrhau bod hyd yn oed mwy o hyfforddiant bellach wedi'i achredu, gan arbed amser ac arian i gyflogwyr drwy leihau'r angen i ailadrodd hyfforddiant.

Mae gwaith ein **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** yn parhau, gydag adolygiadau o alwedigaethau cladin, sgiliau treftadaeth, peirianneg simneiau, gwaith maen a rheoli gweithrediadau contractio adeiladu yn dod i ben. Cwblhawyd diweddariadau ychwanegol i SVQ gwasanaethau gaeaf, inswleiddio thermol a gweithrediadau mynediad a rigio hefyd.

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu safon **ymwybyddiaeth diogelwch tân** newydd; bydd y cwrs hyfforddiant ar-lein yn caniatáu i weithredwyr weithio'n ddiogel ar adeiladau preswyl risg uchel. Rydym hefyd wedi creu pecyn sylweddol o **safonau arwain a rheoli cyfnod byr** sydd i'w lansio ym mis Mehefin.

# Sut mae cyflogwyr yn elwa o'r Lefi

Mae'r Lefi yma i ddarparu anghenion sgiliau ar gyfer cyflogwyr adeiladu ledled Prydain Fawr. Dyma drosolwg o'r buddsoddiadau a wnaed drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys prentisiaethau, cyllid cyflogwyr a darpariaeth ein cynnyrch a'n gwasanaethau:

- Mae'r Lefi'n sicrhau y gallwn gefnogi cyflogwyr gyda hyfforddiant, datblygu sgiliau a phrentisiaethau ym maes adeiladu. Mae lefel y cyllid a ddarperir yn uniongyrchol i gyflogwyr yn parhau i fod yn is na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae nifer y cyflogwyr sy'n elwa yn parhau'n gryf, gyda mwy o fusnesau bach yn hawlio arian na busnesau canolig a mawr. Gwelwyd twf cadarn yn ein grantiau'r chwarter hwn ond maent yn parhau i fod ychydig yn is na'r gyllideb wrth i gyflogwyr ganolbwyntio ar hyfforddiant craidd, megis diogelwch safle
- Effeithiodd y cyfyngiadau yn gynharach yn y flwyddyn ar gynnydd rhai o'n prosiectau a ariannwyd gan y Lefi, ond maent yn awr yn gweld twf cyson. Mae eraill, megis profiadau blasu a'n fframweithiau cymhwysedd, wedi'u gohirio hyd nes 2022-23
- Er effaith COVID, rydym wedi buddsoddi £97m o Lefi o hyd mewn cyllid uniongyrchol cyflogwyr i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf, cefnogi i ddatblygu'r gweithlu presennol a chynorthwyo adferiad y diwydiant.
- Mae gennym fwy o sicrwydd am ein hincwm Lefi ar ddiwedd y flwyddyn Wrth i hyfforddiant a'r awydd i ddatblygu adfer, rydym mewn sefyllfa i fuddsoddi mwy mewn grantiau a chyllid i fodloni galw cyflogwyr. Rydym yn cyhoeddi ac yn lansio rhaglenni newydd yn ein Cynllun Busnes 2022-23, wrth i ni ganolbwyntio ein strategaeth ar gefnogi cyflogwyr i recriwtio mwy o dalent.

| | Gwirioneddol £m | Cynllun Busnes £m |
|---|---|---|
| Lefi | 108.3 | 96.6 |
| Incwm Cynhyrchion a Gwasanaethau | 41.7 | 42.7 |
| Balans (I)/O'r Cronfeydd Wrth Gefn | 23.1 | 69.9 |
| **Cyfanswm Incwm** | **173.1** | **209.2** |
| **CYLLID UNIONGYRCHOL I GYFLOGWR** | | |
| ① Grantiau Prentisiaeth | 49.2 | 51.7 |
| ② Grantiau Cymwysterau | 13.0 | 13.1 |
| ③ Grantiau Hyfforddiant Cyfnod Byr | 14.2 | 18.4 |
| ④ Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant | 8.8 | 14.5 |
| ⑤ Gweithgarwch a Ariennir | 9.7 | 18.4 |
| **Isgyfanswm** | **94.8** | **116.1** |
| **CYMORTH ARALL** | | |
| ⑥ Gwasanaethau Cymorth i Gyflogwyr - Ymgysylltu | 4.4 | 4.2 |
| ⑦ Safonau, Cymwysterau a Dilysu | 2.4 | 2.6 |
| ⑧ Polisi ac Ymchwil Sgiliau a Chyflogaeth | 1.9 | 2.5 |
| **Isgyfanswm** | **8.8** | **9.3** |
| **DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU** | | |
| ⑨ Darpariaeth Hyfforddiant Uniongyrchol (NCC) | 18.0 | 21.7 |
| ⑩ Prentisiaethau | 26.0 | 31.3 |
| ⑪ Cynhyrchion a Gwasanaethau Eraill | 14.2 | 15.3 |
| ⑫ Cost gweinyddu Lefi Grantiau, a Chynlluniau Ariannu | 11.3 | 15.4 |
| **Isgyfanswm** | **69.5** | **83.7** |
| **Cyfanswm** | **173.1** | **209.2** |

